

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

### CLA642 - Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2016

#### Gweithdrefn

---

Cadarnhaol

#### Y cefndir

---

Mae'r rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan ddarpariaethau di-fwg Deddf Iechyd 2006. Mae'r rheoliadau yn eithrio, tan 5 Ebrill 2017, "ystafelloedd dynodedig" ar gyfer oedolion mewn carchardai yng Nghymru o'r gwaharddiad ar ysmegu. Mae "ystafell ddynodedig" yn gell:

- a ddynodwyd yn ysgrifenedig gan y person sy'n gyfrifol am y carchar,
- gwbl gaeëdig,
- nad oes ganddi system awyru (ac nid yw'n awyru i'r unman arall yn y carchar),
- a nodwyd yn glir yn ystafell lle y caniateir ysmegu.

#### Materion technegol: craffu

---

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

#### Craffu: Rhinweddau

---

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3(ii) mewn perthynas â'r offeryn hwn (sef ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad).

Mae achos adolygiad barnwrol wedi cadarnhau bod y darpariaethau di-fwg yn y Ddeddf Iechyd 2006 yn berthnasol i garchardai preifat a charchardai a redir gan y wladwriaeth. Mae hyn yn cadarnhau bod carchardai yng Nghymru yn ddi-fwg, oni bai bod eithriadau yn cael eu gwneud. Mae'r rheoliadau hyn yn darparu eithriad o'r fath, tan 5 Ebrill 2017. O hyn tan 5 Ebrill 2017, caiff carchardai yng Nghymru eu cefnogi i ddod yn ddi-fwg.

Yr achos adolygiad barnwrol yw *Black v Secretary of State for Justice* [2015] EWHC 528 (Admin).



**Cynghorwyr Cyfreithiol**  
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**  
**19 Ionawr 2016**



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales